



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Parc Dinefwr

Pecyn Adnoddau'r
Goedwig

DYSGU



Cyflwyniad

Nod y pecyn hwn yw helpu athrawon i baratoi ar gyfer tywys ymweliad eu hunain mewn ffordd greadigol, hyderus a llawn dychymyg. Mae'r awgrymiadau am weithgareddau yn hyblyg, ac mae modd eu cynnal mewn sawl ffordd. Ry'n ni'n annog athrawon i ddethol ac addasu'r deunydd er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd â deilliannau cwricwlwm ac anghenion y flwyddyn sy'n ymweld.

Iechyd a Diogelwch

Er bod taflenni asesiad risg ar gael dim ond i chi ofyn, yn ôl canllawiau'r awdurdod lleol mae athrawon ac arweinwyr grŵp yn gyfrifol am gyflawni eu taflen eu hunain, yn enwedig os oes gan blant unigol anghenion penodol.

Archebu ymweliad


I holi am ymweliad neu os am fwy o wybodaeth, cysylltwch os gwelwch yn dda â dinefwrlearning@nationaltrust.org.uk

neu ffoniwch 01558 825927

Gofynnwn i chi archebu o leia bythefnos ymlaen llaw am ymweliad gyda tywysydd

CYNNWYS

Tudalen 1	Clawr
Tudalen 2	Cyflwyniad
Tudalen 3	Map a mynegai
Tudalen 4	Adeiladu Ffau
Tudalen 5	Cyfnod Sylfaen—Chwilota am Chwilod
Tudalen 6	Cyfnod Allweddol 2—Trywydd Trychfilod
Tudalen 7	Taflen Gweld y Gwanwyn
Tudalen 8	Taflen Helo Haf
Tudalen 9	Taflen Gweld Bywyd Gwyllt y Gaeaf
Tudalen 10	Taflen 'Nabod Coed a Dail yr Hydref
Tudalen 11	Cyfnod Sylfaen—Dweud Stori
Tudalen 12	Celf Wyllt
Tudalen 13	Prosiect Coed—Cyfnod Sylfaen
Tudalen 14	Prosiect Coed—Cyfnod Allweddol 2



- 1) Adeiladu ffau ac ardal dweud stori hanner ffordd i fyny coedwig y castell
- 2) Amser stori ger y Pwll
- 3) Adeiladu ffau yn y Parc Ceirw
- 4) Ardal Celf Wyllt ar y dde drwy'r iet ar ddechrau llwybr y gwartheg



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Adeiladu Ffau

Gyda cymaint o dir coediog ar y safle, mae Parc Dinefwr yn cynnig digonedd o gyfle i fwynhau gweithgaredd adeiladu ffau. Mae hwn yn addas ar gyfer Cyfnod Sylfaen a dosbarthiadau CA2. Cyfeiriwch nôl at dudalen 2 yn y llyfryn hwn, a bydd y map yn dangos yr ardaloedd mwyaf hygyrch i'ch dosbarth gael mwynhau'r dasg greadigol hon, sy'n annog datblygiad:

- **Datrys problemau**
- **Gwaith grŵp**
- **Cyfathrebu**
- **Dysgu trwy wneud**

Ardal 1. Hanner ffordd drwy goedwig y Castell mae man hardd lle mae yna nifer o goed a brigau wedi cwmpo, sy'n berffaith ar gyfer creu ffau.

Caniatewch 30 munud i gerdded o'r ganolfan ymwelwyr i'r ardal yma.



Ardal 2. Trowch i'r dde drwy'r iet ym Mharc y Ceirw ac mae llwybr byr dros y bont. Ar y chwith i chi mae man gwych gyda llawer o goed talsyth a brigau wedi syrthio, sy'n ardderchog i greu sawl math o ffau. Caniatewch 15 munud i gerdded o'r ganolfan ymwelwyr.





Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Cyfnod Sylfaen—Taflen Chwilota am Chwilod



Mochyn Coed

☐

Gwlithen

☐

Miltroed

☐

Corryn

☐

Mwydyn

☐

Morgrugyn

☐

Pryfyn Clust

☐

Chwilen

☐

Malwoden

☐

CA2— Trywydd Trychfilod

Enwch y trychfilod a thynnwch linell rhwng y disgrifiad a'r llun cywir



Beth ydw i? Ateb: _____

Gallwch ddod o hyd i fi ym mhobman. Mae llwynogod yn fy mwyta, a moch daear. Dwi'n llysnafeddog, a dim ond un droed sydd gen i. Rwy'n gadael llwybr llysnafeddog ar fy ôl.



Beth ydw i? Ateb _____

Dwi'n greadur y nos. Dwi'n cysgu mewn lleoedd tywyll yn ystod y dydd. Gefail yw fy nghynffon. Dwi'n llysieuwr. Mae gen i chwe choes.



Beth ydw i? Ateb: _____

Rwy'n gadael fy ôl. Rwy'n bwyta dail a phlanhigion. Gallwch fy ngweld ym mhobman ond rwy'n hoffi cuddio dan gerrig. Rwy'n cario fy nghartre gyda fi.




Beth ydw i? Ateb: _____

Rwy'n bwyta pren a dail sydd wedi pydru neu farw. Rwy'n cuddio mewn lleoedd llaith yn ystod y dydd. Rwy'n hoffi bod o dan bentwr o goed a biniau compost. Mae gen i 10 coes.



Beth ydw i? Ateb: _____

Mae gen i frathiad sy'n pigo. Gallaf fyw mewn sawl cynefin ond dwi'n eitha hoff o fryncyn. Rwy'n byw gyda fy mrenhines. Mae sawl math ohonom, ond fy enw i yw melyn y gwair.



Beth ydw i? Ateb: _____

Dwi'n byw yn y pridd. Hanner ffordd lawr fy nghorff mae cyfrwy. Does gen i ddim coesau. Mae mwyalchod a draenogod yn hoffi fy mwyta. Rwy'n helpu creu pridd hyfryd.



Beth ydw i? Ateb: _____

Rwy'n byw o dan greigiau, yn y pridd ac mewn compost. Rwy'n fwyd da i adar a llyffantod. Efallai eich bod yn credu bod gen i 100 troed. Dwi'n greadur chwim.



Beth ydw i? Ateb: _____

Rwy'n bwyta pryfed sy'n hedfan. Fe welwch chi fi bron ym mhobman. Mae fy nghartref yn disgleirio ar fore gwllithog. Rwy'n defnyddio fy wyth coes i nyddu gwe.



Beth ydw i? Ateb: _____

Dwi'n ddu a disglair ac mae sawl math ohonof i. Mae dros 300,000 math ohonof i yn y byd. Gallwch ddod o hyd i fi ger y pethau rwy'n eu bwyta, fel pren pwdwr a dail, ond mae gen i adenydd a gallaf hedfan.



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Taflen Gweld y Gwanwyn



Cacynen

☐

Llygad Ebrill

☐

Blodau

☐

Grifft broga

☐

Cynffonau ŵyn bach

☐


Briallu

☐

Elain (carw ifanc) yr
Hydd Brith

☐

Pili-pala/ iar fach
yr haf

☐

Blagur ar goed

☐

Lili wen fach / eirllys

☐

Clychau'r gog

☐



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Taflen Hwyl Haf



Gwas y Neidr



Pili-pala/ lar fach yr haf



Hydd Brith



Llo Gwyn y Parc



Cloc Dant y Llew



Cacynen



Blodyn Menyn y Maes



Glas y Dorlan



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Taflen Gwyllo Bywyd Gwylt y Gaeaf



Robin Goch

☐

Titw benddu

☐

Celyn

☐

Cadno/Llwynog

☐

Dryw

☐

Hydd Brith

☐

Lili wen fach

☐

Bronfraith

☐

Titw Tomos Las

☐

Iorwg

☐

Titw Mawr

☐

Aderyn du/

☐

Taflen 'Nabod Coed a Dail yr Hydref



Derwen



Ffawyddden



Onnen




Sycamorwydden



Criafolen



Castanwydden






Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Amser Stori


Yn ystod yr ymweliad, os yw'n addas, mae nifer o safloedd yn cynnig lle i'r dosbarth eistedd lawr i wrando stori yn yr awyr agored. Gellir gweld dau o'r rhain ar y map yn y pecyn hwn.




Gallai'r llyfrau isod fod yn adnodd delfrydol i'w defnyddio yn ystod sesiwn stori ar eich ymweliad. Gellir datblygu gweithgareddau cyn ac ar ôl yr ymweliad i ffitio'r cwricwlwm.




Cyfrl hardd yn mynd ar daith natur drwy'r wyddor, yn symbyliad i chwilotwyr ifanc.



Stori ddoniol mewn odl wedi ei gosod mewn coedwig yn trafod beth all ddigwydd i'r goedwig trwy fod yn rhy daclus!



Stori ddwyieithog, ddoniol am Sbang o'r cadno mewn strach oherwydd sbwriel yn y goedwig. Cyfrl i drafod yr



Fersiwn Gymraeg o Stick Man. Stori hwyliog am Brig Ddyn a'i anturiaethau yn y goedwig.



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Celf Wyllt

Beth yw Celf Wyllt?

Wrth greu celf wyllt, y prif ffocws yw helpu plant i ymwneud yn greadigol â byd natur. Mae darparu cyfleusterau i blant allu creu celf wyllt yn ffordd i annog y dosbarth i weld byd natur mewn goleuni gwahanol. Mae defnyddio deunyddiau naturiol gwahanol o'r goedwig yn eu galluogi i greu campweithiau niferus; gallan nhw ddefnyddio unrhywbeth sydd ar lawr y goedwig, dim ond iddyn nhw beidio amharu ar gynefinoedd byw. Ym Mharc Dinefwr mae sawl ardal lle gallwch wau sesiwn celf wyllt i mewn i'ch taith, ac mae'r man agosaf daflad carreg o flaen y tŷ. Sefwch gyda'r tŷ tu ôl i chi, a dilynwch y llwybr i'r chwith drwy'r iet, yna dilynwch y ffordd i'r iet nesaf ac fe welwch yr ardal yn syth ar y dde i chi.



Isod fe welwch amrywiaeth o enghreifftiau o gelf wyllt





Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Cyfnod Sylfaen—Prosiect y Coed

Ffaith hwyl: Mae pob
cwch gan oedolyn rownd
boncyff coeden yn gyf-
werth â 100 mlynedd o
dwf.



Dewch o hyd i goeden wedi cwmpo er mwyn amcangyfrif ei hoedran pan gwmpodd.

Wrth gyfrif y cylchoedd ar foncyff neu stwmpyn coeden, ry'ch chi'n cael syniad o oedran y goeden pan syrthiodd hi. Unwaith y flwyddyn bydd coeden yn tyfu haenen newydd o risgl, sy'n golygu bydd cylch newydd yn ymddangos. Ysgrifennwch eich hateb fan hyn:

Mesurwch foncyff coeden

Dewiswch goeden fawr lydan. Amcangyfrifwch faint o blant fydd ei hangen i roi cwch mawr o gwmpas y boncyff.

Yr ateb yw: _____

Nawr, daliwch ddwylo i roi cwch o gwmpas y goeden. Faint o blant oedd eu hangen?

Yr ateb yw: _____

Tra'n treulio amser yn y goedlan hynafol, defnyddiwch eich synhwyrâu a rhowch gylch o gwmpas pump gair i ddisgrifio beth sydd o'ch cwmpas.

Oerni	Mwd	Gwres	Blodau	Garwder
Gwyrddni Glawog	Gwlyb	Crensian	Heulog	
Gwyntog	Adar	Dail	Rhisgl	Coed
				Sychder

Prosiect y Goeden—Cyfnod Allweddol 2



Dewch o hyd i goeden wedi cwmpo er mwyn amcangyfrif ei hoedran pan gwmpodd

Mae cyfrif y cylchoedd ar foncyff neu stwmpyn coeden yn rhoi syniad i chi o oedran y goeden pan syrthiodd. Unwaith y flwyddyn bydd coeden yn tyfu haenen newydd o risgl, sy'n golygu bydd cylch newydd yn ymddangos. Ysgrifennwch eich hateb fan hyn:

Mesur uchder coeden

Dewiswch goeden dal. Dechreuwch gerdded i ffwrdd o'r goeden, a bob ychydig gam edrychwch nôl drwy'ch coesau arni. Stopiwch pan fydd y goeden gyfan i'w gweld. Mesurwch y pellter nôl i fonyn y goeden gyda chatau mawr er mwyn amcangyfrif ei thaldra. Ysgrifennwch eich hateb fan hyn:

Tra'n treulio amser yn y goedlan hynafol, defnyddiwch eich synhwyrau ac yna ysgrifennwch bum brawddeg am beth sydd o'ch cwmpas yn y blwch isod.